# SWYDDOGOL

| GWYBODAETH POLISI | |
|---|---|
| Teitl | Polisi Cerdyn Caffael y Llywodraeth |
| Fersiwn | V2.0 |

| PERCHNOGAETH POLISI | |
|---|---|
| Noddwr Polisi | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Masnachol |
| Perchennog Polisi | Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolaeth Ariannol |
| Awdur Polisi | Tîm Gweinyddol GPC |

Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau gan y cyhoedd a staff ynghylch cynnwys a gweithrediad y polisi hwn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r polisi hwn, ysgrifennwch at: **Uned Llywodraethu Gwybodaeth Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 2il Lawr, 3 Sgwâr Callaghan Caerdydd, CF10 5BT** neu e-bostiwch: FOI@btp.pnn.police.uk

## Pwrpas y Polisi

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r canllawiau, y polisi a'r cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio Cardiau Caffael y Llywodraeth (GPCs) ar gyfer pob pryniant gwerth isel ar ran Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP). Mae'n ategu ac yn unol â'r polisïau Caffael ac Adnoddau Dynol.

- Polisi Caffael; a
- Cod Llywodraethu Corfforaethol BTPA

## I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol

Mae'r ddogfen bolisi hon yn orfodol i bob deiliad cerdyn GPC o fewn BTP, eu rheolwyr llinell, deiliaid cyllideb a'r Ganolfan Cyllid a Thrafodion Masnachol sy'n ymwneud â thalu datganiadau cardiau misol a gweinyddu llywodraethu'r cardiau GPC.

## Egwyddorion

Mae'r polisi a'r weithdrefn hon yn darparu trosolwg o brosesau prynu, cymeradwyo a monitro GPC ac yn nodi rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig. Rhaid i'r holl gyflogeion sy'n ymwneud â phrynu nwyddau neu wasanaethau gyda cherdyn GPC, adolygu a chymeradwyo pryniannau a monitro llywodraethu a chydymffurfio â chanllawiau fod yn ymwybodol o'r ddogfen hon ac mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â hi.

## Monitro ac Adolygu

Mae Tîm Gweinyddol GPC y Pencadlys yn y Ganolfan Cyllid a Thrafodion Masnachol yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r ddogfen bolisi hon. Bydd y polisi'n cael ei adolygu unwaith bob tair blynedd (oni bai bod amgylchiadau'n mynnu y dylid ei adolygu'n amlach) i sicrhau bod y broses ddiweddaraf a mwyaf perthnasol yn ei lle.

## Polisïau/Dogfennau Cysylltiedig

Canllaw Deiliad Cerdyn Ar-lein Data Clyfar
Canllaw Cyflym Gweinyddwr Rhaglen Ar-lein Data Clyfar
Canllaw Cymeradwywyr Ar-lein Data Clyfar

Dogfen Gweithdrefn Gweinyddu Misol GPC